Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Llys Meddyg**

**Llys Meddyg**
**4 Station Road**
**Dinbych**
**LL16 3DA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

07/07/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Llys Meddyg

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | John Roberts |
| Lleoedd cofrestredig | 18 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 30 Hydref 2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn derbyn gofal gan niferoedd digonol o staff sy'n cefnogi'r bobl gyda charedigrwydd ac amynedd. Mae cynlluniau personol yn cynnwys manylion da am y bobl ac yn rhoi cyfarwyddiadau clir i'r staff ar sut i gefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau dymunol. Mae cofnodion yn dangos bod y bobl yn gallu cael gofal arbenigol a meddygol mewn modd amserol, a dilynir cyngor gan y gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Mae'r adborth am y cartref gan berthnasau yn gadarnhaol iawn.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd croesawgar a chartrefol. Mae gan y darparwr gwasanaeth waith adnewyddu a datblygu sylweddol wedi'i gynllunio i ddechrau yn yr ychydig fisoedd nesaf. Mae cofnodion yn dangos bod gweithdrefnau a pholisïau iechyd a diogelwch ac atal a rheoli heintiau ar waith ac yn cael eu dilyn gan y staff.

Mae gan y darparwr gwasanaeth broses lywodraethu dda ar waith i gefnogi rhediad esmwyth y cartref. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac mae ganddo oruchwyliaeth briodol o reolaeth y cartref. Teimla'r staff eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr, ond mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod y staff yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt, a bod cofnodion cydymffurfio yn adlewyrchu'n gywir yr hyfforddiant sydd ei angen ac a gwblhawyd gan y staff.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i fod â rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae ystafelloedd gwely'r bobl wedi'u personoli gyda lluniau ac eiddo personol eraill ac mae naws gartrefol iddynt. Mae'r bobl yn symud yn rhydd o gwmpas y cartref trwy gydol y dydd gyda chefnogaeth gan y staff yn ôl yr angen. Gwelsom y bobl yn cael dewis o fwyd amser bwyd ac yn dewis cael rhagor o'r prydau y maent yn eu mwynhau. Nid yw'r cofnodion yn dangos yn ddigonol bod adborth am y cartref yn cael ei gasglu'n uniongyrchol gan y bobl sy'n byw yno, ond gwelsom lawer o adborth cadarnhaol gan berthnasau. Dywedodd un perthynas wrthym pan oedd yn chwilio am gartref ei fod wedi penderfynu "*it was here or nowhere*" i'w berthynas.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gynnal eu hiechyd a'u llesiant a gwneud pethau sy'n eu gwneud yn hapus. Mae'r rheolwr yn dilyn gweithdrefnau cywir ar gyfer gwneud penderfyniadau sydd er y budd gorau'r bobl pan nad oes ganddynt alluedd. Caiff y bobl fynediad at ofal arbenigol a meddygol mewn modd amserol, a dilynir cyngor gan y gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Anogir teuluoedd i fynd â'r bobl allan i'r gymuned pan fyddant yn ymweld. Mae cofnodion gweithgaredd yn dangos y bobl yn mwynhau sesiynau maldodi, diddanwyr, gweithgareddau crefft, a dathliadau pen-blwydd. Mae gan y cartref ddoliau babanod, crud, a chath dementia y mae'r bobl yn rhyngweithio â nhw ac a welsom yn rhoi cysur i'r bobl. Mae'r iaith Gymraeg yn rhan o'r gwasanaeth a ddarperir i'r bobl. Gwelsom ddogfennau ac arwyddion dwyieithog a chlywsom y staff yn siarad Cymraeg â'r bobl.

Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod polisïau iechyd a diogelwch, gwiriadau ac archwiliadau ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel. Caiff y staff hyfforddiant ar ddiogelu'r bobl sy'n agored i niwed ac maent yn dilyn polisïau a gweithdrefnau i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r offer sydd ar gael i gefnogi anghenion y bobl yn cael ei gynnal a'i gadw a'i wasanaethu'n rheolaidd. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod y staff yn cwblhau'r holl hyfforddiant sydd ei angen i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl.

Anogir y bobl i gynnal a datblygu cydberthnasau personol a theuluol. Gwelsom breswylwyr yn sgwrsio â'i gilydd yn y lolfa. Gwelsom furluniau wedi'u paentio ar y wal mewn un lolfa yn dathlu preswylwyr y gorffennol a'r presennol. Anogir yr ymwelwyr drwy gydol y dydd, a dywedodd perthnasau wrthym fod y staff yn mynd allan o'u ffordd i hwyluso ymweliadau. Gwelsom fod gan y staff gofal gydberthynas dda â'r bobl a'u bod yn eu hadnabod yn dda.

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n diwallu ac yn hyrwyddo eu hanghenion a'r canlyniadau dymunol. Mae'r ardaloedd cymunedol yn gyfforddus. Gwelsom addasiadau a wnaed i

addurno yn cefnogi arferion a hobïau dewisol y bobl ac yn helpu i gyfeirio'r bobl sy'n byw gyda dementia yn y cartref.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sy'n ystyried eu dymuniadau personol. Mae cynlluniau personol yn cynnwys manylion da am ddewisiadau a chanlyniadau dymunol y bobl, gan gynnwys hoffterau o siarad Cymraeg neu Saesneg. Ysgrifennir cynlluniau mewn ymgynghoriad â'r bobl a'u teuluoedd. Mae gan y staff gofal gyfarwyddiadau clir yn y cynlluniau personol ar sut yr hoffai'r bobl i'w gofal gael ei ddarparu. Gwelsom fod cynlluniau'n cael eu hadolygu'n drylwyr bob mis gan fyfyrio ar sut mae anghenion y person yn cael eu diwallu, ac a oes angen unrhyw newidiadau. Mae cofnodion trosglwyddo yn drylwyr ac yn sicrhau bod y staff gofal yn gallu cael gafael ar y wybodaeth ddiweddaraf. Roedd y cofnodion gofal dyddiol a welwyd yn fanwl ac yn dangos bod y staff yn dilyn cynlluniau personol pobl a chyngor gan weithwyr proffesiynol.

Gwelsom y staff gofal yn diwallu anghenion y bobl gyda charedigrwydd ac amynedd ac mewn modd amserol. Mae'r staff gofal yn derbyn ac yn deall anghenion a diddordebau'r bobl ac yn cynnig sicrwydd a chymorth lle bo angen. Dywedodd y staff gofal wrthym sut maent yn cefnogi'r bobl gyda gweithgareddau y maent yn eu mwynhau a diddordebau y maent wedi'u cynnal drwy gydol eu hoes. Gwelsom hwy yn rhyngweithio â'r bobl yn y modd hwn. Gwelsom sampl o holiaduron gan berthnasau, ac roedd y mwyafrif ohonynt yn gadarnhaol. Dywedodd un holiadur, "*I could not ask for more in terms of loving care for my mam".*

Mae gan y gwasanaeth systemau diogel ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Mae'r gweithiwr meddygol proffesiynol yn ymweld bob mis i adolygu iechyd meddwl a lles y bobl ac ystyried a oes angen adolygu unrhyw feddyginiaeth. Mae'r staff gofal yn cefnogi'r bobl sy'n bryderus neu'n cynhyrfu gan roi tawelwch meddwl iddynt a thynnu eu sylw, gan ddilyn cynlluniau personol unigol. Dywedodd aelod o'r staff wrthym mai anaml y mae angen rhoi meddyginiaeth 'yn ôl yr angen' i'r bobl os byddant yn teimlo'n ofidus. Gwelsom gofnodion da ar gyfer meddyginiaeth.

Mae'r gwasanaeth yn hybu arferion hylan ac yn rheoli'r risg o haint yn dda. Mae'r staff yn defnyddio cyfarpar diogelu personol priodol. Gwelsom gofnodion glanhau da, ac roedd y cartref yn lân ac yn daclus drwy gydol ein hymweliad. Mae gan y darparwr gwasanaeth drefniadau ar waith i sicrhau bod y cartref yn gynaliadwy yn ariannol ac yn parhau i gefnogi'r bobl.Gwelsom gyflenwad digonol o offer, gan gynnwys PPE.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd croesawgar a chartrefol. Mae gan y gwasanaeth ddwy lolfa sy'n glyd ac yn gyfforddus gyda llawer o olau naturiol a digon o seddi i bawb. Gall y bobl symud o gwmpas y cartref yn rhydd gyda mynediad at ganllawiau ac offer arbenigol. Mae dwy ystafell twin yn y gwasanaeth. Gwelsom fod y rhain wedi'u trefnu i roi lle eu hunain i bob person. Roedd yr ystafelloedd sengl a welsom o faint da. Gwelsom arwyddion dwyieithog drwy'r cartref i helpu i gyfeirio'r bobl. Nid yw'r ardd yn ddiogel ar hyn o bryd ac o ganlyniad dim ond o dan oruchwyliaeth y caiff pobl fynediad i'r ardd. Mae grisiau a rampiau concrit, sy'n gofyn i'r staff oruchwylio'r bobl â symudedd cyfyngedig. Mae rhai rhannau o'r cartref sydd angen eu hadnewyddu. Fodd bynnag, mae gan y darparwr gwasanaeth gynlluniau i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan gynnwys estyniad unllawr a gwelliannau i'r adeilad a'r gerddi presennol. Oherwydd bod gwaith ar fin cael ei wneud i newid y lloriau, bydd un lolfa'n cael ei symud i fyny'r grisiau, gan roi mynediad parhaus i ofod cymunedol i'r bobl â symudedd cyfyngedig sy'n byw i fyny'r grisiau.

Mae'r golchdy yn cynnwys offer gradd masnachol a dilynir gweithdrefnau golchi dillad da. Mae cynlluniau i adnewyddu'r gegin gan ddefnyddio mwy o offer o safon fasnachol. Mae'r gegin yn lân, yn daclus ac wedi'i chyflenwi'n dda. Mae gan y gwasanaeth sgôr hylendid bwyd o bum seren, sef y lefel uchaf y gellir ei chyflawni.

Mae systemau da ar waith i nodi a rheoli risgiau iechyd a diogelwch. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn sicrhau bod materion cynnal a chadw yn cael eu hamlygu ac yr ymdrinnir â hwy mewn modd amserol. Gwelsom arfer diogel ar gyfer diogelwch tân, gyda drysau tân trydan ar gau sy'n gysylltiedig â'r system larwm tân, a hyfforddiant tân rheolaidd i'r staff. Cwblheir gwiriadau diogelwch tân ac offer arbenigol yn flynyddol. Mae digon o offer yn yr adeilad i ddiwallu anghenion y bobl. Mae cofnodion yn dangos bod profion diogelwch, gwasanaethu a chynnal a chadw'r holl offer y mae'r bobl yn eu defnyddio ar waith. Mae'r ardystiad gofynnol a'r profion diogelwch ar gyfer gwasanaethau prif gyflenwad nwy, trydan a dŵr i'r cartref wedi'u sefydlu a chaiff gwaith adnewyddu ei gwblhau mewn da bryd.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod prosesau llywodraethu da ar waith i gefnogi rhediad esmwyth y cartref. Mae ystod gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau i arwain y staff a sicrhau bod arferion gorau a deddfwriaeth gyfredol yn cael eu dilyn. Mae'r rheolwr yn sicrhau bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg o ddydd i ddydd. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld yn rheolaidd ac yn gweithio'n agos gyda'r rheolwr. Cwblheir adroddiadau o'r ymweliadau ag unigolion cyfrifol gan eu cynrychiolydd ac maent yn dangos arolygiaeth o gofnodion recriwtio a hyfforddi'r staff, cofnodion gofal, a'r amgylchedd. Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'i gynrychiolydd yn adolygu ansawdd y gofal yn y gwasanaeth o leiaf ddwywaith y flwyddyn i nodi meysydd i'w datblygu a'u gwella. Cesglir adborth am y cartref gan y gweithwyr proffesiynol a pherthnasau, ond ni cheir tystiolaeth o leisiau unigol y bobl yn yr adroddiadau ar ansawdd y gofal na’r Unigolyn Cyfrifol a welsom. Gwnaethom drafod hyn â’r darparwr gwasanaeth sy’n edrych ar y ffordd orau o gasglu’r wybodaeth hon gan ystyried anghenion cyfathrebu unigol y bobl.

Mae'r bobl yn derbyn gofal gan niferoedd digonol o'r staff a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Mae cofnodion yn dangos bod gwiriadau ffitrwydd y staff yn cael eu cwblhau cyn eu cyflogi a'u hadolygu'n flynyddol ochr yn ochr â'u cofrestriadau gyda chyrff proffesiynol. Mae cofnodion ar gyfer y staff newydd yn dangos rhaglen hyfforddiant sefydlu drylwyr gan gynnwys sifftiau cysgodol lle caiff eu sgiliau gofal a'u cymhwysedd eu hasesu. Mae'r staff yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd ar sail un i un, lle gallant fynegi eu pryderon neu eu problemau. Dywedodd y staff wrthym bod y rheolwr, yr Unigolyn Cyfrifol, a'u cynrychiolydd yn hawdd mynd atynt ac yn gefnogol.

Gwelsom gofnodion o ddiweddariadau hyfforddiant ar gyfer rhai aelodau o'r staff mewn pynciau gan gynnwys ymwybyddiaeth o ddementia, iechyd a diogelwch, cymorth cyntaf, a diogelu pobl agored i niwed. Dywedodd y darparwr gwasanaeth wrthym fod y staff yn cael eu hannog i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn y cartref. Nid yw'r cofnodion a ddefnyddir i archwilio hyfforddiant y staff yn ddarlun cyflawn o'r holl hyfforddiant sydd ei angen neu a gwblhawyd gan y staff ac felly nid ydynt yn adlewyrchiad cywir o gydymffurfiaeth hyfforddiant. Gwelsom rai aelodau o'r staff nad oedd wedi cwblhau hyfforddiant sy'n uniongyrchol berthnasol i'w rolau. Gwnaethom drafod hyn â'r darparwr yn ystod adborth, a chytunwyd i ddarparu tystiolaeth ychwanegol o gydymffurfiaeth â hyfforddiant, ond ni dderbyniwyd hon. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 36 | Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod yr holl staff yn cael eu cefnogi i gwblhau’r hyfforddiant sy’n ofynnol ar gyfer eu rolau ac sy’n diwallu anghenion y bobl sy’n byw yn y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cofnodion cydymffurfio yn adlewyrchu'r hyfforddiant a gyflawnwyd gan y staff yn ogystal â'r hyfforddiant sy'n ofynnol gan rolau'r staff unigol. | Newydd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 29/08/2023